Cyswllt · Contact Bethan Wyn Hughes
Ffôn ·Telephone 01766 772530
Ein cyf · Our ref
Eich cyf ·Your ref
Dyddiad · Date 08.12.2022
e-bost · e-mail Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
lle i enaid gael llonydd
ERYRI NATIONAL PARK
one of Britain's breathing spaces

Trwy e-bost / Via e-mail

Ymgynghoriad Cyhoeddus:
Strategaeth Hybu'r Gymraeg drafft ar gyfer 2022 – 27

Fel un o rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri, mae'n ddyletswydd arnom fel Awdurdod i warchod yr iaith Gymraeg. Bydd llawer ohonoch yn ymwybodol bod y Gymraeg wedi bod yn rhan annatod o ethos a diwylliant ein sefydliad ers ein sefydlu fel Awdurdod Parc Cenedlaethol; ac ar wahân i'n hegwyddor gyffredinol o ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'r cyhoedd ar bob achlysur, rydym hefyd yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r iaith ymhlith trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd trwy bob agwedd o'n gwaith beunyddiol.

Fel Awdurdod cyhoeddus mae gennym hefyd ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a osodwyd arnom gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Un o'r safonau hyn yw'r gofyniad i gael Strategaeth 5 mlynedd i Hybu'r Gymraeg.

Rydym wedi bod yn gweithio ar gynhyrchu drafft cychwynnol o'n ail Strategaeth Hybu'r Gymraeg ar gyfer y cyfnod 2022 - 27, ac mae copi wedi'i amgáu.

Byddem yn croesawu'n fawr eich mewnbwn a'ch adborth ar y cynnwys, wrth i ni agor ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos ar y Strategaeth ddrafft.

Public Consultation:
Draft Welsh Language Promotion Strategy for 2022 – 27

As one of the special qualities of Eryri National Park, it is our duty as an Authority to conserve the Welsh language. Many of you will be aware that the Welsh language has been ingrained into the ethos and culture of our organisation from our inception as a National Park Authority; and apart from our overarching principle to always provide a fully bilingually service to the public, we also work hard to promote the language with both local residents and visitors alike through every aspect of our daily work.

As a public Authority we also have a statutory duty to comply with the Welsh language standards which have been set on us by the Welsh Language Commissioner under The Welsh Language (Wales) Measure 2011. One of these standards is the requirement to have a 5 year Welsh Language Promotion Strategy in place.

We have been working on producing an initial draft of our second Welsh Language Promotion Strategy for the period 2022 – 27, a copy of which is enclosed.

We would very much welcome your input and feedback on its contents, as we open up an 8 week public consultation on the draft Strategy.

Gallwch gyflwyno eich sylwadau trwy gwblhau holiadur y gellir cael mynediad ato trwy glicio ar y ddolen hon:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/67LRTN7

Fel arall, mae croeso i chi anfon eich ymateb drwy e-bost at Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru neu drwy'r post i'n prif swyddfa (mae'r cyfeiriad post llawn ar waelod y dudalen).

Os hoffech gopïau papur o unrhyw un o'r dogfennau neu os hoffech eu derbyn mewn unrhyw fformat arall, gellir gofyn am y rhain drwy anfon e-bost neu drwy ffonio derbynfa'r brif swyddfa ar 01766 772274.

Bydd yr ymgynghoriad yn parhau ar agor tan **ddydd Gwener, 3ydd o Chwefror 2023**.

Diolch i chi ymlaen llaw am dreulio amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

You can submit your comments by completing a questionnaire which can be accessed by clicking on this link:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/89MCQYW

Alternatively, you are welcome to send your response via e-mail to Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru or through the post to our head office (the full postal address is at the bottom of the page).

If you would like paper copies of any of the documents or would like to receive them in any other format, these can be requested by sending an e-mail or by phoning the head office reception on 01766 772274.

The consultation will remain open until **Friday, 3rd of February 2023**.

Thank you in advance for taking the time to respond to this consultation.

Yn eiddoch yn gywir / Yours faithfully



Bethan Wyn Hughes
Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
Head of Administration and Customer Care

Amg. / Enc.